



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

**Pontio o'r Ysgol i
Fywyd fel Oedolyn - ar
gyfer pobl ifainc ag
Anghenion Addysgol
Arbennig**

Pontio o'r Ysgol i Fywyd fel Oedolyn - ar gyfer pobl ifainc ag Anghenion Addysgol Arbennig

Gall gadael yr ysgol a symud ymlaen i fywyd a gwasanaethau oedolion fod yn amser anodd i bob person ifanc a'i deulu. Ar gyfer disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA), mae system gynllunio a phrotocol trosglwyddo ar gael i'w helpu i wneud y newid yma mor rhwydd â phosib.

Oedran gadael yr ysgol

Mae'r dyddiad y gall person ifanc adael yr ysgol yn dibynnu ar bryd y mae'n cyrraedd ei ben-blwydd/ei phen-blwydd yn 16 oed. Er enghraifft, os bydd yn troi'n 16 yn ystod y flwyddyn ysgol, gall adael ar 30 Mehefin o'r flwyddyn ysgol honno.

Serch hynny, os oes ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig gall barhau mewn addysg tan ei ben-blwydd yn 19 oed.

Ymgysylltu â'r person ifanc a'i gefnogi

Ni ddylai'r dull y mae'r peron ifanc yn ei ddefnyddio i gyfathrebu fod yn rhwystr iddo gyfrannu at y broses bontio. Dylai unrhyw gynllunio caniatáu iddo gyfrannu yn y ffordd sy'n fwyaf ystyrlon iddo.

Os oes teimlad nad oes ganddo'r gallu i wneud ei ddewisiadau ei hunan, dylai'r teulu a gweithwyr proffesiynol edrych ar ffyrdd creadigol o eirioli ei ddewis. Gall hyn gynnwys defnyddio cymhorthion gweledol, asesu a chofnodi ei ymateb fel tystiolaeth.

Dylech chi ystyried sut mae modd cefnogi'ch plentyn i leihau pryder trwy gydol y broses.

Gall strategaethau gwneud penderfyniadau a chymorth cynnar helpu.

Gall hyn gynnwys:

- staff cymorth newydd yn gweithio gyda nhw cyn y symud
- ymweld â'r amgylchedd newydd i gwrdd â staff a chyfoedion
- defnyddio straeon cymdeithasol neu gymhorthion gweledol

Y Cynllun Pontio

Pobl ifainc heb ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Mewn rhai achosion, gall fod gan fyfyrwr sy'n cyrraedd 16 oed anghenion addysgol arbennig sydd ddim yn galw am ddatganiad, ond mae'n debygol o fod angen rhywfaint o

gefnogaeth os bydd yn mynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. Er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yma'n gallu gwneud penderfyniadau, ac i hwyluso eu proses pontio'n llwyddiannus, mae'n bwysig bod ganddyn nhw'r cymorth a'r arweiniad priodol. Gall hyn gynnwys darparu cysylltiadau ysgol/ coleg neu leoliadau gwaith a dylai gynnwys asiantaethau lleol gwahanol.

Mae Gyrfa Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad gyrfaol i bobl o bob oed. Fel rhan o hyn mae'n canolbwyntio ar gefnogi pobl ifainc sydd ag AAA ond heb ddatganiad. Dylai Gyrfa Cymru roi gwybodaeth i ysgolion a fydd yn helpu'r myfyrwyr yma i wneud trawsnewidiadau llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-ysgol. Dylai ysgolion ymgynghori fel sy'n briodol gyda Gyrfa Cymru a gwasanaethau eraill i sicrhau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei throsglwyddo i ddarparwyr ôl-16 gyda chaniatâd y person ifanc ac mewn digon o amser i'r darparwr ôl-16 roi cefnogaeth angenrheidiol ar waith.

Efallai y bydd ysgolion mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr Gyrfa Cymru eisiau llunio Cynlluniau Pontio i gefnogi'r broses yma, p'un a yw'r person ifanc yn aros yn yr ysgol ar ôl 16 neu'n symud i ddarpariaeth arall. Bydd angen cydweithio â staff yr Awdurdod Lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'r person ifanc, i ddarparu'r wybodaeth briodol ar gyfer y cynllun.

(Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig

Cymru, 2002)

Pobl ifainc gyda datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Y cynllun pontio yw'r ddogfen sy'n deillio o'r adolygiad pontio. Mae'n nodi'r cynlluniau priodol ar gyfer person ifanc yn ystod y cyfnod pontio i fywyd fel oedolyn a dylai gynnwys trefniadau ar gyfer unrhyw ddarpariaeth addysgol arbennig ac am unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol arall (iechyd, cyflogaeth, hamdden ac ati) a fydd yn arwain i gyfnod pontio rhwydd o blentyndod i fywyd fel oedolyn.

Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod rhai dyletswyddau ar yr awdurdod addysg lleol (AALI) mewn perthynas â'r asesiad a'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag AAA. Mae'r adolygiad blynyddol ym Mlwyddyn 9 yn cael ei ddefnyddio i lunio'r cynllun pontio. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ALL weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a all chwarae rhan bwysig ym mywyd y person ifanc yn ystod y blynyddoedd ôl-ysgol a rhaid iddo gynnwys Gyrfa Cymru.

Mae'n debygol y bydd rhieni plant ag AAA/ADY yn gyfarwydd ag adolygiadau blynyddol o ddatganiadau, ond mae'r adolygiad pontio sy'n digwydd ym **Mlwyddyn 9** yn arbennig o bwysig gan ei fod yn dechrau paratoi ar gyfer yr amser pan fydd y person ifanc yn gadael yr ysgol. Beth bynnag fydd yr oedran gadael (bydd rhai'n gadael yn 16 oed tra bydd eraill yn

gadael yn 18 neu'n 19 oed), mae'r broses gynllunio yn bwysig iawn. Dylai cynllunio pontio cael ei ystyried fel proses sy'n datblygu, gan ddechrau ym Mlwyddyn 9 a pharhau nes i'r person ifanc adael yr ysgol.

Y cyfarfod adolygu pontio (Blwyddyn 9)

- Dylai digon o rybudd gael ei roi am ddyddiad y cyfarfod
- Dylai unrhyw adroddiadau ysgrifenedig gael eu dosbarthu i'r holl rai sydd wedi cael eu gwahodd i'r adolygiad o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod.
- Mae'r ysgol yn gyfrifol am gyflwyno gwahoddiadau i'r adolygiad.

Rhaid i'r pennaeth (neu'r person y mae'r dasg yma wedi'i dirprwyo iddo) wahodd:

- Rhiant/rhieni neu gynhalwyr y person ifanc
- Aelod perthnasol o staff
- Asiantaethau sy'n gweithio gyda'r teulu eisoes
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gyrfa Cymru.

Bydd gwasanaethau plant dim ond yn mynychu os yw'r plentyn yn 'achos agored', sef achos gweithredol ar yr adeg honno. Os ydyn nhw'n achos agored i'r garfan plant ag anabledau, gall aelod o'r garfan drosglwyddo fynychu'r cyfarfod adolygu, a'r holl adolygiadau dilynol, i gynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Os oes pobl eraill y byddwch yn hoffi iddyn nhw fynychu, mae modd i chi ofyn i'r pennaeth eu gwahodd. Rhaid gwahodd Gyrfa Cymru i'r adolygiad pontio a'r holl adolygiadau wedi hynny, gan ei bod yn asiantaeth hanfodol sy'n rhan o'r broses drosglwyddo. Bydd yn sicrhau bod pob opsiwn yn y dyfodol yn cael ei ystyried o ystyried anghenion a dymuniadau'r person ifanc.

Mae arfer da yn pennu y dylai'r adolygiad yma, a'r rhai sy'n dilyn, gael ei gynnal gydag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person - mewn geiriau eraill, sy'n canolbwyntio ar y person ifanc.

Lleisio'ch barn

Dylai barn y person ifanc gael ei chlywed a'i chofnodi lle bynnag y bo modd. Efallai y bydd angen cefnogaeth ar y person ifanc i gyfrannu at yr adolygiad a mynegi ei farn. Dylai'r ffyrdd y mae hyn yn gallu digwydd gael eu harchwilio'n llawn.

Gall rhieni ddod ag eiriolwr gyda nhw, fel cefnogwr rhiant. Efallai bydd y person ifanc hefyd eisiau dod ag eiriolwr gydag ef. Mae'n fuddiol i rieni feddwl am rai o'r materion y bydden nhw eisiau trafod cyn yr adolygiad ac efallai eu hysgrifennu. Gall fod yn amser anodd, felly gall nodiadau fod yn ddefnyddiol.

Os bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dylai'r wybodaeth berthnasol gael ei hanfon adref ymlaen llaw, a bydd gofyn i chi feddwl am gwestiynau penodol cyn yr adolygiad, a bydd unrhyw faterion yn cael eu trafod yn y cyfarfod.

Rôl y gweithwyr proffesiynol yn y Cynllun Pontio:

Dylai'r cynllun pontio gael ei lunio yn dilyn y cyfarfod. Efallai bydd cynllun gweithredu hefyd, yn manylu pwy sydd i wneud beth ac ar ba ddyddiad - mae angen i hwn gael ei oruchwylio gan berson sydd wedi'i enwebu er mwyn sicrhau bod yr holl weithredoedd yn cael eu gwneud yn ôl yr amserlen.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu cyflwyno'r cynllun pontio. Bydd Gyrfa Cymru yn chwarae rhan flaenllaw wrth sicrhau bod elfennau'r cynllun pontio sy'n ymwneud â throsglwyddo'r person ifanc i addysg bellach neu gyflogaeth yn cael eu darparu.

Dylai'r pennaeth baratoi adroddiad o'r adolygiad a'i gyflwyno i'r awdurdod lleol (ALI) heb fod yn hwyrach na **deg diwrnod ysgol** ar ôl i'r adolygiad ddigwydd (neu ddiwedd tymor yr ysgol, p'un bynnag yw'r cynharaf). Dylai unrhyw argymhellion sy'n cael eu gwneud yn yr adroddiad fod yn glir a dylai unrhyw adroddiadau proffesiynol gael eu cynnwys fel atodiadau yn yr adroddiad o'r adolygiad. Rhaid i'r pennaeth sicrhau bod y cynllun pontio yn cael ei lunio; yna bydd Gyrfa Cymru yn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.

Beth ddylai ddigwydd ym mhob adolygiad blynyddol dilynol?

Bydd yr ysgol yn cynnull yr holl adolygiadau blynyddol a fydd yn dilyn. Bydd y rhain yn debyg i'r adolygiadau blaenorol. Bydd angen adolygu'r cynllun pontio bob tro hefyd.

Blwyddyn 10 (15+)

Yn yr adolygiad yma, ac ymhob adolygiad a fydd yn dilyn, bydd y rhieni/cynhalwyr a'r person ifanc yn cael eu hysbysu am yr adolygiad ac yn cael eu gofyn a ydyn nhw eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun pontio. Dyma'r broses:

- Gall Gyrfa Cymru fynychu.
- Gall Gyrfa Cymru ymweld â'r ysgol a dylai gyfweled â'r person ifanc ynghylch ei obeithion am y dyfodol os yw'n gadael yr ysgol yn 16 oed.

- Dylai'r person ifanc a'i rieni/cynhalwyr ymweld â'r coleg(au) lleol i weld a ydyn nhw'n addas at gyfer ei anghenion a hefyd feddwl am drefnu profiad gwaith.
- O ran pobl ifainc sydd â mwy o anghenion, bydd yn hanfodol darganfod pa ddewisiadau sydd ar gael gan fod y rhain yn fwy cyfyngedig.

Bydd yn ddefnyddiol i bob rhiant a pherson ifanc siarad ag eraill sydd wedi bod trwy'r broses.

Blwyddyn 11 (16+)

Mae angen penderfynu a oes unrhyw newidiadau i'r cynllun.

Os bydd y person ifanc yn gadael yr ysgol ac yn trosglwyddo i goleg lleol neu goleg arbenigol y tu allan i'r sir, naill ai yn 16 neu'n 19 oed, bydd angen i asiantaeth Gyrfa Cymru gymryd rhan (mewn perthynas â threfnu cyllid os oes angen). Mae cynnwys Gyrfa Cymru yn hanfodol yn ystod y cam yma. Efallai na fydd rhai pobl ifainc yn teimlo bod y coleg yn addas ar eu cyfer. Bydd yn bwysig cynnwys y bobl berthnasol lle mae angen gwneud dewisiadau eraill; e.e. gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, cyflogaeth dan gymorth drwy'r rhaglen cyflogadwyedd.

Blwyddyn 12 (17+)

Penderfynu a yw'r cynllun yn dal yn berthnasol a gwneud unrhyw newidiadau.

Blwyddyn 13 (18+)

Ar ben-blwydd y person ifanc yn 18 oed, mae'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo o weithiwr cymdeithasol o garfan gwasanaethau cymdeithasol plant i reolwr gofal oedolion, os yw Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cymryd rhan. Efallai bydd y person yma'n rhan o'r garfan pontio.

Mae cynnwys yr asiantaethau a'r unigolion hynny sy'n debygol o gefnogi'r person ifanc pan fydden nhw'n gadael yr ysgol yn hanfodol. Efallai bydd y rhain yn cynnwys rhywun o gynllun cyflogaeth dan gymorth lleol.

Unwaith y bydd y person ifanc yn 18 oed, bydd gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth yn berthnasol iddo mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r wybodaeth y dylai dderbyn.

Os oes gan y person ifanc anghenion iechyd parhaus, mae'n bosib y byddai'n parhau i dderbyn gofal gan ymgynghorwyr pediatriig tan ei ben-blwydd yn 19 oed, ond rhaid cynllunio'r pontio i wasanaethau iechyd i oedolion. Mae cynllun gweithredu iechyd yn offeryn da i gynorthwyo'r trosglwyddiad yma.

Blwyddyn 14 (19+)

Dylai Gyrfa Cymru fynychu'r cyfarfod adolygu blynyddol yma, ynghyd ag unrhyw bartïon perthnasol eraill.

Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru yn darparu cymorth, gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifainc yng Nghymru ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 0800 028 4844

Ffôn symudol: 029 2090 6800

Gwefan www.careerswales.com

Opsiynau i Bobl Ifainc 14-25

Fel arfer, rhwng 14 a 25 oed, mae rhaid i bobl ifainc wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn ag addysg, gadael gartref, ennill swydd a dechrau perthynas. Gall y penderfyniadau a'r newidiadau yma fod yn gyffrous ac yn heriol. Gall fod yn amser pryderus i rai teuluoedd; efallai y bydd pobl ifainc yn poeni am ba gyfleoedd a gwasanaethau y gallen nhw eu disgwyl fel oedolyn, a p'un a fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn.

Bydd proses cynllunio pontio llwyddiannus yn helpu i roi dealltwriaeth glir o'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ar ôl yr ysgol, ac ar ôl 18 oed. Gall pobl ifainc adael yr ysgol yn gyfreithiol ar ddiwedd mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydden nhw'n cyrraedd 16 oed. O'r fan hon, gallen nhw fel arfer wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch yr hyn y maen nhw am ei wneud. Serch hynny, bydd angen cefnogaeth ar rai i wneud cynlluniau. Dyma'r prif opsiynau ar ôl 16 oed:

- Gall aros yn yr ysgol gynnig llawer o gyfleoedd a bod yn ddewis cadarnhaol. Mae rhai pobl ifainc yn gallu aros yn yr ysgol tan eu bod yn 19 oed. Gall ymgyngorydd Gyrfa Cymru roi gwybodaeth fanwl i chi am y cyrsiau a'r cymwysterau sydd ar gael yn lleol.
- Mae mynychu coleg addysg bellach lleol wrth fyw gartref yn aml yn gam nesaf. Gall colegau gynnig ystod eang a lefel eang o gyrsiau, yn academiaidd ac yn gysylltiedig â gwaith, a all fod

yn llawn amser neu'n rhan-amser. Mae llawer o gyrsiau wedi'u cynllunio i baratoi pobl ifainc am fywyd fel oedolion trwy gynnig ystod o gyrsiau blasu galwedigaethol, y cyfle i ennill cymwysterau a gwella sgiliau mewn Mathemateg, Cymraeg/Saesneg a chyfathrebu. Mae rhai myfyrwyr yn aros yn eu coleg lleol hyd nes eu bod yn 25 mlwydd oed.

- Colegau preswyl arbenigol - Gall bron pob un Person Ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anabledau fynd i'w goleg lleol. Mae gan nifer fach iawn anghenion na all eu coleg lleol eu bodloni ac, os yw'r dysgwr rhwng 16 a 25 oed, gall Llywodraeth Cymru dalu iddyn nhw fynychu coleg arbenigol, gan gynnwys cyrsiau preswyl, lle bo'n briodol. Lle na all coleg lleol gwrdd ag anghenion Person Ifanc, bydd gan yr Ymgynghorydd Gyrfaedd wybodaeth ar sut i wneud cais am le mewn coleg arbenigol a sut i gael cyllid.
- Bydd addysg uwch yn opsiwn i rai pobl ifainc y mae eu gallu academaidd yn eu galluogi i gael mynediad at gyrsiau sydd ar gael. Gallai hyn fod yn y brifysgol, mewn coleg neu trwy ddysgu o bell.
- Gwaith a Hyfforddiant â Chymorth - Gall person ifanc fynd i mewn i fyd gwaith drwy gyflogaeth dan gymorth neu raglen hyfforddi. Mae yna nifer o sefydliadau sy'n gallu eu helpu i ddod o hyd i gyfleoedd mewn sefyllfaoedd gwaith go iawn. Mae llawer o'r rhaglenni yma'n gallu arwain at gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol.
- Cyflogaeth - Dim ond cyfran fach o bobl ifainc sy'n mynd yn syth i gyflogaeth o'r ysgol. Os mai dyma'r opsiwn mwyaf priodol, bydd ymgynghorydd Gyrfa Cymru yn gallu helpu gyda sgiliau chwilio am swydd.
- Gall cyfleoedd Gwasanaeth Dydd fod yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer rhai Pobl Ifainc. Fel arfer, mae'r rhain yn cael eu trefnu mewn mannau lle gall pobl ifainc ag anabledau dysgu ddilyn pob math o weithgareddau diddorol yn ystod y dydd (yn aml y tu allan i'r ganolfan oriau dydd ac yn y gymuned leol). Yma, gallen nhw wneud ffrindiau newydd, ennill eu hannibyniaeth a dod yn aelod gwerthfawr o'r gymuned. Fel arfer mae gwasanaethau dydd yn cael eu darparu gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu fudiadau gwirfoddol.